# Bwrdd S4C

## Cod Ymarfer ar gyfer aelodau'r Bwrdd

Ebrill 2025

**1. Cyflwyniad**

1.1. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Cod Ymarfer ar gyfer holl aelodau Bwrdd S4C, boed yn aelodau anweithredol neu weithredol.

1.2. Mae'r Cod Ymarfer yn ategu at y wybodaeth a ddarperir mewn unrhyw ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i S4C; y ddogfen *Rheolau Sefydlog Bwrdd S4C*; a'r disgrifiadau swyddogaeth ar gyfer gwahanol gategorïau aelodaeth y Bwrdd. Disgwylir i holl aelodau'r Bwrdd gytuno ac ymrwymo i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r dogfennau hyn.

1.3. Ar gyfer aelodau anweithredol y Bwrdd, mae'r Cod Ymarfer hwn yn ategu'r C*ode of Conduct for Board Members of Public Bodies* a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU. Disgwylir i'r aelodau anweithredol gydymffurfio gyda gofynion y *Code of Conduct*, a'r ddogfen honno fydd oruchaf os bydd unrhyw wrthdaro gyda'r hyn sydd yn y Cod Ymarfer hwn.

1.4. Ar gyfer aelodau gweithredol y Bwrdd, fel cyflogeion S4C, disgwylir iddynt hefyd gydymffurfio gyda'u cytundeb cyflogaeth.

1.5. Nid oes dim yn y Cod hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i aelod weithredu mewn ffordd a fyddai'n anghyfreithlon.

1.6. Mae'r termau a ddefnyddir yn y Cod hwn yn cyd-fynd â'r diffiniadau a ddarperir yn *Rheolau Sefydlog Bwrdd S4C*.

**2. Ymddygiad, a gwerthoedd S4C a gwasanaethau cyhoeddus**

2.1. Rhaid i unigolion beidio â gweithredu mewn modd sy'n debygol o ddwyn anfri ar S4C.

2.2. Mae disgwyl i aelodau'r Bwrdd weithredu er budd gorau S4C, ac nid er unrhyw fudd ariannol neu fudd materol arall – boed iddynt yn bersonol, neu unrhyw unigolion neu sefydliad arall y maent yn gysylltiedig gyda neu'n cynrychioli.

2.3. Rhaid i holl aelodau'r Bwrdd weithredu yn unol â Chod Diwylliant a gwerthoedd corfforaethol S4C, yn ogystal â'r safonau cyffredinol a ddisgwylir gan y Bwrdd fel yr amlinellir yn *Rheolau Sefydlog Bwrdd S4C*.

2.4. Wrth gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau'r Bwrdd, rhaid iddynt ofalu eu bod yn cadw at saith egwyddor y Pwyllgor Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus:

*Anhunanoldeb*:
Dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent weithredu er mwyn cael budd ariannol neu fudd materol arall iddynt eu hunain, eu teuluoedd na'u ffrindiau.

*Unplygrwydd*:
Ni ddylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus eu gosod eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol na rhwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu ar y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

*Gwrthrychedd*:
Wrth wneud gwaith cyhoeddus, yn cynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau neu fanteision, dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus wneud eu dewisiadau yn ôl haeddiant.

*Atebolrwydd*:
Mae'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt fod yn barod i gael eu harchwilio ym mha ffordd bynnag sy'n briodol i'w swydd.

*Bod yn agored*:
Dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus fod mor agored ag y bo modd ynglŷn â'u holl benderfyniadau a'u gweithredoedd. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a'r unig bryd y dylent gyfyngu ar wybodaeth yw pan fydd lles ehangach y cyhoedd yn amlwg yn mynnu hynny.

*Gonestrwydd*:
Mae'n ddyletswydd ar y sawl sydd mewn swydd gyhoeddus i ddatgelu unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau, mewn ffordd sy'n gwarchod lles y cyhoedd, i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi.

*Arweiniad*:
Dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.

2.5. Wrth gymhwyso'r rhain yn benodol i waith S4C, rhaid i'r aelodau:

- gadw at y safonau uchaf o ran unplygrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd;
- ymddwyn ar bob amser gyda pharch, urddas, priodoldeb a chyfartaledd;
- gwrando'n ofalus ac ystyried pob mynegiant o farn wrth bennu nodau, amcanion a blaenoriaethau'r Bwrdd;
- sicrhau bod unplygrwydd ac annibyniaeth S4C fel darlledwr yn cael ei warchod yn ddiwahân rhag pwysau gwleidyddol amhriodol neu o fathau eraill;
- gweithredu yn ddidwyll ac er lles gorau S4C;
- peidio camddefnyddio gwybodaeth a gawsant yn sgìl eu gwasanaeth ar y Bwrdd er mantais bersonol, nac at ddibenion gwleidyddol, ac ni ddylent ychwaith ddefnyddio'r cyfle i wasanaethu'r cyhoedd i hyrwyddo eu buddiannau preifat, na rhai personau, cwmnïau, busnesau nac unrhyw gyrff eraill;
- gofalu eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r Bwrdd ar dderbyn rhoddion a lletygarwch; ac
- ymatal rhag cymryd rhan yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn unrhyw gystadleuaeth na digwyddiad arall a drefnir gan S4C a fyddai'n arwain atynt yn elwa neu'n cael rhyw fantais bersonol arall, neu aelod o'u teulu yn elwa neu'n cael mantais yn yr un modd.

2.6. Mae aelodau yn gyfrifol am sicrhau nad yw S4C yn mynd ymhellach na'i rymoedd na'i swyddogaethau, boed y rheiny wedi'u diffinio mewn statud neu fel arall, neu trwy unrhyw gyfyngiadau ar ei awdurdod i wario arian. Cynghorir y Bwrdd yn y materion hyn gan yr Ysgrifennydd.

2.7. Os bydd unrhyw aelod o'r Bwrdd yn methu cydymffurfio â disgwyliadau S4C ohonynt (fel yr amlinellir mewn dogfennau gan gynnwys *Rheolau Sefydlog Bwrdd S4C*, y Cod Ymarfer hwn, a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol S4C), cymerir camau disgyblu yn eu herbyn yn unol ag egwyddorion Polisi Disgyblu S4C (gweler pwynt 12).

## 3. Gwrthdaro Buddiannau

3.1. Rhaid i unigolion beidio â chaniatáu i'w gweithgareddau allanol ymyrryd â'u gwaith gydag S4C na chaniatáu i unrhyw wrthdaro rhwng eu dyletswyddau a'u buddiannau personol effeithio ar eu gallu i gyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol.

3.2. Rhaid i aelodau wneud datgeliad llawn ac amserol o unrhyw fuddiannau personol adeg eu penodi i wasanaethu ar y Bwrdd, ac o leiaf unwaith y flwyddyn wedi hynny, yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. Darperir mwy o wybodaeth ynghylch pryd a sut i ddatgan a diweddaru unrhyw fuddiannau gan yr Ysgrifennydd. Bydd pob datganiad a wneir gan aelodau unigol yn cael eu cofnodi yng Nghofrestr Buddiannau aelodau'r Bwrdd, sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan gyhoeddus S4C.

3.3. Cyfrifoldeb yr aelodau unigol yw sicrhau eu bod yn datgan yn brydlon i'r Ysgrifennydd unrhyw fater y mae'n ofynnol ei gynnwys yn y Gofrestr Buddiannau. Dylid datgan unrhyw fuddiant posib cyn gynted ag y daw i'r amlwg. Bydd yr Ysgrifennydd yn atgoffa pob aelod i adolygu eu datganiadau yn y Gofrestr Buddiannau ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

3.4. Os oes amheuaeth ynghylch a ddylid datgan mater penodol, dylid ei ddatgan a bydd yr Ysgrifennydd (mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd lle bo hynny'n briodol) yn penderfynu a ddylid ei gynnwys yn y Gofrestr neu beidio. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn adolygu'r Gofrestr Buddiannau'n flynyddol er mwyn bodloni ei hun nad yw buddiannau unrhyw aelod yn effeithio ar ei allu i gyflawni dyletswyddau'r swyddogaeth.

3.5. Gall mwyafrif y Bwrdd benderfynu bod angen mesurau parhaol i reoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib. Cyn gwneud hynny, rhaid ymgynghori â'r aelod dan sylw am fesurau priodol i warchod nhw a

phartïon eraill. Bydd yr Ysgrifennydd wedyn yn cyfathrebu'r penderfyniad i'r aelod ac unrhyw unigolyn perthnasol arall.

3.6. Nid yw cynnwys datganiad o fuddiant yn y Gofrestr Buddiannau yn dileu rhwymedigaeth aelod i ddatgan yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau pob diddordeb – p'un a ydynt wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Buddiannau ai peidio – sy'n berthnasol i'r busnes sy'n cael ei ystyried. Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu trefniadau ar gyfer delio gyda gwrthdaro buddiannau sy'n codi yn ystod cyfarfod o'r Bwrdd a'r pwyllgorau.

3.7. Dylai aelodau anweithredol ymgynghori â'r Cadeirydd cyn derbyn penodiadau allanol newydd. Bydd y Cadeirydd yn ymgynghori â'r Aelod Annibynnol Arweiniol cyn derbyn penodiadau newydd ei hun.

3.8. Lle penodwyd aelod gan y Bwrdd i weithredu fel cyfarwyddwr un o is-gwmnïau masnachol S4C, gellir ystyried bod gan yr aelod wrthdaro teyrngarwch a dylai ddatgan y gwrthdaro hwn yn y Gofrestr Buddiannau.

3.9. Er nad oes angen i aelodau gweithredol gofnodi eu cyflogaeth gydag S4C yn y Gofrestr Buddiannau, rhaid iddynt ddatgan diddordeb os bydd mater yn ymwneud yn uniongyrchol â'u swydd yn codi mewn cyfarfod, ac ymneilltuo o'r drafodaeth.

3.10. Ni ddylai aelodau anweithredol ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriaeth (boed â thâl neu beidio) i S4C neu un o'i gyflenwyr yn ystod cyfnod eu penodiad.

3.11. Mae pob aelod anweithredol yn cytuno, am gyfnod o dri mis yn union ar ôl i'w tymor ar y Bwrdd ddod i ben, na fyddant yn:

- ceisio cyflogaeth gan, derbyn cyflogaeth gyda, neu gynnig darparu gwasanaethau i; neu
- dderbyn cyfarwyddiaeth gydag

unrhyw endid sy'n cyflenwi, neu yn cystadlu a / neu gydweithio gydag S4C.

3.12. Amlinellir trefniadau ar gyfer cyfyngiadau ar weithgareddau gan aelodau gweithredol yn dilyn terfyn eu cyflogaeth gydag S4C yn eu cytundebau cyflogaeth.

## 4. Derbyn Rhoddion a Lletygarwch

4.1. Mae gan S4C drefniadau pwrpasol mewn lle mewn ymateb i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010. Darperir mwy o wybodaeth ynghylch y trefniadau i aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd, a rhaid i aelodau gydymffurfio gyda'r trefniadau hyn, gan gynnwys egwyddorion polisi S4C ar dderbyn rhoddion a lletygarwch.

4.2. Hyd yn oed lle nad oes lwgrwobrwyo, gallai derbyn rhoddion neu letygarwch roi'r argraff o ddylanwadu ar eich penderfyniadau busnes neu arwain at wrthdaro rhwng buddiannau, yn enwedig os bydd gwerth y rhodd yn sylweddol.

4.3. Yr egwyddor arweiniol yw y dylai unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynnir fod yn gymesur ac yn briodol i'r amgylchiadau y caiff ei gynnig neu ei dderbyn. Dylid bob amser osgoi'r risg o dderbyn neu ddarparu anrhegion a allai gael eu hystyried yn anghymesur, gormodol neu'n eithafol.

4.4. Os cynigir rhodd i unigolyn yn rhinwedd eu swyddogaeth fel aelod o'r Bwrdd, dylid trafod y mater gyda'r Cadeirydd (neu gyda'r Aelod Annibynnol Arweiniol, yn achos y Cadeirydd) a dylid llenwi ffurflen Datgan Rhoddion a Lletygarwch.

4.5. Bydd rhai mathau o letygarwch yn briodol os byddant yn cyfrannu at waith S4C, ond dylid trafod gyda'r Cadeirydd (neu gyda'r Aelod Annibynnol Arweiniol, yn achos y Cadeirydd) yn gyntaf cyn derbyn yn rhinwedd swyddogaeth fel aelod o'r Bwrdd. Os yw unigolyn yn derbyn lletygarwch, dylid llenwi ffurflen Datgan Rhoddion a Lletygarwch.

## 5. Teithio, Llety a Threuliau

5.1. Bydd S4C yn darparu ar gyfer anghenion teithio a llety aelodau'r Bwrdd wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau. Bydd yr aelodau'n cael eu had-dalu am yr holl wariant rhesymol angenrheidiol a delir ganddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran S4C.

5.2. Bydd angen i aelodau'r Bwrdd gydymffurfio gyda'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth sy'n berthnasol i staff S4C, sy'n gofyn iddynt gadw mewn cof yr angen i'r holl gostau teithio, llety a threuliau cyffredinol fod yn

gost effeithiol – er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol tra'n cydnabod gofynion eraill ar eu hamser.

5.3. Bydd crynodeb o'r treuliau a delir, a'r trefniadau teithio a llety a ariennir ar ran, aelodau anweithredol y Bwrdd yn cael ei gyhoeddi ar wefan S4C.

## 6. Gweithgareddau Gwleidyddol

6.1. Gwaherddir aelodau'r Bwrdd rhag bod yn aelodau o Dŷ'r Cyffredin a Senedd Cymru (neu unrhyw un o senedd-dai eraill y Deyrnas Unedig). Disgwylir i'r aelodau beidio derbyn swyddi cyflogedig mewn pleidiau gwleidyddol nac unrhyw swyddi di-dâl sy'n arbennig o sensitif neu'n uchel eu proffil mewn plaid wleidyddol.

6.2. Mae gan aelodau anweithredol ryddid i weithredu'n wleidyddol, ar yr amod eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyhoeddus cyffredinol a'u bod yn ymarfer eu doethineb, o ran gwaith Bwrdd S4C. Ar faterion sy'n effeithio'r gwaith uniongyrchol, ni ddylent wneud areithiau gwleidyddol nac ymhél â gweithgareddau gwleidyddol eraill. Nid yw'r cyfyngiadau yn berthnasol i gynghorwyr lleol nac i Arglwyddi o ran eu hymddygiad yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ymdrinnir â sefyllfa Arglwyddi mewn datganiad a atgynhyrchir gan y Llywodraeth i 'Cyrff Cyhoeddus Anadrannol: Arweiniad i Adrannau'.

6.3. Bydd cytundeb cyflogaeth yr aelodau gweithredol yn diffinio unrhyw gyfyngiadau ar eu gallu i weithredu'n wleidyddol.

## 7. Perthynas â'r Adran Nawdd

7.1. Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn atebol i Senedd San Steffan am bolisïau a pherfformiad pob corff cyhoeddus a noddir gan ei Adran, gan gynnwys eu defnydd o adnoddau a'r fframwaith polisi y gweithredant oddi fewn iddi. Mae Prif Weithredwr S4C, yn gweithredu fel y Swyddog Cyfrifo yn atebol i'r DCMS am wariant a gweithgareddau S4C.

## 8. Cyfarfodydd y Bwrdd

8.1. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

8.2. Anogir trafodaeth lawn a gonest er mwyn sicrhau fod yr holl ystyriaethau pwysig yn cael eu gwyntyllu a'u trafod. Unwaith y gwnaed penderfyniadau yng ngoleuni trafodaeth o'r fath, mae'r aelodau yn rhannu'r cyfrifoldeb amdanynt.

8.3. Fel amod o'u penodiad, mae'r aelodau'n ymrwymo i fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd ac unrhyw is-bwyllgor y maent hefyd yn gwasanaethu arno, ac eithrio lle bo amgylchiadau eithriadol neu annisgwyl yn atal eu presenoldeb. Lle bo'n ymarferol, gellir gwneud trefniadau i aelodau ymuno â chyfarfod yn rhithiol.

## 9. Cyfrinachedd

9.1. Bydd aelodau'r Bwrdd yn derbyn llawer o wybodaeth sy'n ymwneud ag S4C wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Bydd llawer o'r wybodaeth o natur sensitif yn fasnachol neu'n olygyddol. Yn unol â'u dyletswyddau ymddiriedol i S4C, bydd yn ofynnol i aelodau gadw'r holl wybodaeth yn gyfrinachol, a'i defnyddio er budd S4C yn unig wrth gyflawni eu dyletswyddau.

9.2. Ni ddylai unrhyw aelod, ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw, yn ystod neu ar ôl i'w haelodaeth o'r Bwrdd ddod i ben, ddatgelu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson, cwmni, neu drydydd parti unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag S4C, ei fusnes, cyfrinachau masnachol, cyflenwyr neu unrhyw wybodaeth arall o ba bynnag natur bynnag y gall S4C fod o'r farn ei bod yn gyfrinachol.

9.3. Wedi i'w haelodaeth o'r Bwrdd ddod i ben disgwylir i unigolion ddychwelyd neu ddinistrio pob gwybodaeth gyfrinachol ynghylch S4C a'i waith sydd yn eu meddiant – boed yn electronig neu ar bapur. Gall yr Ysgrifennydd holi am gadarnhad ysgrifenedig gan unigolion eu bod wedi dinistrio unrhywbeth perthnasol.

## 10. Datganiadau cyhoeddus

10.1. Mae'r aelodau yn derbyn cyfrifoldeb ar y cyd am benderfyniadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau, gan gynnwys ar yr adegau pan yr oeddent yn y lleiafrif wrth gymryd unrhyw benderfyniadau.

10.2. Yn unol â Rheol 5.4 Cod Ofcom, ni ddylai'r Cadeirydd nac aelodau gweithredol y Bwrdd (fel swyddogion S4C[1]) fynegi barn na safbwyntiau ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n bynciau llosg nac ar faterion polisi cyhoeddus cyfredol mewn rhaglenni ar wasanaethau darlledu S4C. Eithriad i hyn yw pan fo'r unigolyn yn siarad mewn fforwm deddfwriaethol neu lys barn. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i farn neu safbwynt sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni.

10.3. Ni fydd aelodau yn dwyn anfri ar S4C na'r Bwrdd, a byddant yn ymwybodol y gellid ystyried unrhyw sylwadau a wneir ganddynt yn gyhoeddus (gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol) fel rhai a fynegir ar ran y Bwrdd.

10.4. Wrth wneud sylwadau cyhoeddus ar faterion sy'n ymwneud ag S4C, bydd aelodau'r Bwrdd yn cytuno eu sylwadau o flaen llaw gyda'r Cadeirydd a cyd-aelodau'r Bwrdd, ac mewn ymgynghoriad gyda'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata, ac, oni chytunir fel arall, yn adlewyrchu safbwynt cytunedig y Bwrdd. Os bydd y cyfryngau'n cysylltu'n ddirybudd, bydd angen i'r aelod(au) rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd a Phennaeth Cyfathrebu S4C cyn gynted â phosibl.

10.5. Ni ddylai aelodau ddatgan barn bersonol yn gyhoeddus ar faterion sydd wrthi'n cael eu hystyried gan y Bwrdd, neu unrhyw brosesau eraill sy'n mynd rhagddynt yn fewnol. Rhaid hefyd ystyried yr amgylchiadau, a'r gynulleidfa, wrth wneud sylwadau preifat, ac ymddwyn mewn modd priodol.

10.6. Ni chaniateir i aelod dderbyn unrhyw daliad wrth gyfrannu at unrhyw gyfryngau yn rhinwedd ei swyddogaeth fel aelod o'r Bwrdd.

## 11. Achosion Cyfreithiol

11.1. Mae unrhyw gamau gan drydydd parti yn debygol o gael eu cymryd yn erbyn S4C fel corff. Mewn amgylchiadau eithriadol gellir cymryd camau (sifil, neu mewn rhai sefyllfaoedd, troseddol) yn erbyn aelodau unigol. Er enghraifft, gall aelod fod yn bersonol gyfrifol os yw ef neu hi yn gwneud datganiad twyllodrus, esgeulus, neu nad ydyw wedi ei gytuno gan y Bwrdd o flaen llaw sy'n arwain at golled i drydydd parti. Gall aelod sy'n camddefnyddio gwybodaeth a gawsant yn sgìl ei sefyllfa ef neu hi wynebu cyhuddiadau o dor-cyfrinach o dan gyfraith gwlad neu ddeddfau prynu a gwerthu mewnol.

11.2. Ni fydd rhaid i aelodau unigol sydd wedi gweithredu'n onest, yn rhesymol a didwyll, heb esgeulustod, a gyda sêl bendith y Bwrdd, dalu allan o'u hadnoddau personol unrhyw rwymedigaeth sifil bersonol a ddaw ar eu traws wrth gyflawni neu honni cyflawni swyddogaethau'r Bwrdd. O fewn amodau ei rymoedd statudol penodol, mae S4C yn darparu indemniad ar gyfer ei aelodau yn y Rheolau Sefydlog.

## 12. Polisïau

12.1. Er nad yw'r aelodau anweithredol yn gyflogeion, er mwyn gweithredu fel un sefydliad mae disgwyl iddynt gydymffurfio gydag egwyddorion y polisïau a gyhoeddir yn *Llawlyfr Staff S4C* i'r graddau sy'n bosib. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys: y Polisi a Gweithdrefn Gwynion; y Polisi Datgelu Camymddygiad neu Weithgaredd Amhriodol; y Polisi Parch yn y Gwaith; a'r Polisi ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.

12.2. Golyga hyn os bydd delio gyda mater sy'n ymwneud ag aelod anweithredol (e.e. cwyn yn eu herbyn, neu fethiant ganddynt i gydymffurfio gyda gofynion S4C ohonynt) yna fe fydd y polisi sy'n berthnasol ar gyfer delio gyda materion o'r fath gyda staff S4C yn cael ei ddilyn i'r graddau posib. Serch hynny, mae'n debyg y bydd angen diwygio'r unigolion fydd yn ymwneud ag ac yn ystyried y mater o dan sylw. Bydd yr Ysgrifennydd a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (gyda mewnbwn unigolyn annibynnol lle'n briodol) yn cytuno ar y diwygiadau sydd eu hangen i'r polisi arferol ac yn hysbysu'r aelod anweithredol ac unrhyw unigolion perthnasol eraill.

12.3. Os bydd angen dilyn prosesau mewnol S4C mewn perthynas ag aelod anweithredol, gall y Cadeirydd (neu'r Aelod Annibynnol Arweiniol os yw'r mater yn ymwneud â'r Cadeirydd) benderfynu fel gweithred niwtral ei bod yn haws i S4C wneud hynny wedi i'r aelod gamu o'r neilltu am gyfnod. Hysbysir yr

---

[1] Yn unol ag arweiniad Ofcom ar Reol 5.4 o'r Cod Darlledu, mae'r term "y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth" yn cynnwys y trwyddedai, swyddogion y cwmni, ac unigolion sydd â chyfrifoldeb golygyddol dros y gwasanaeth neu ran ohono. Yn achos S4C, rydym wedi dehongli i gynnwys y Cadeirydd ac aelodau gweithredol y Bwrdd – ond nid yr aelodau anweithredol. Mae hyn ar sail rôl arweiniol y Cadeirydd fel deilydd swyddogaeth benodol ar y Bwrdd (ac felly'n wyneb cyhoeddus i'r sefydliad), ac yn sgil ei rôl anffurfiol fel cynghorwr i'r Prif Weithredwr.

Ysgrifennydd yn hysbysu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) o’r cam hwnnw, a rhaid adrodd yn ffurfiol ar benderfyniad y Cadeirydd (neu’r Aelod Annibynnol Arweiniol) i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

12.4. Os, yn sgil dilyn proses addas mewn perthynas ag aelod anweithredol, penderfynir bod angen cymryd camau disgyblu tu hwnt i allu S4C, cyfeirir y mater at Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

12.5. Os, wedi dilyn prosesau mewnol S4C mewn perthynas ag aelod anweithredol, fod mwyafrif aelodau’r Bwrdd yn dymuno i’r aelod anweithredol adael ei swydd, bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) o’r dymuniad hwnnw.

12.6. Bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu’r DCMS o unrhyw brosesau ffurfiol sydd angen eu dilyn mewn perthynas ag aelod anweithredol, hyd yn oed mewn achosion lle y delir gyda materion yn llwyr yn fewnol.

12.7. Os bydd aelod anweithredol yn gweld yr angen i godi mater yn unol â pholisïau S4C, gallant ymgynghori gyda’r Ysgrifennydd os dymunant arweiniad ar y prosesau i’w dilyn.

12.8. Bydd unrhyw faterion sy’n ymwneud ag aelod gweithredol o’r Bwrdd yn cael eu hystyried yn unol â’r polisi sy’n berthnasol ar gyfer delio gyda materion o’r fath gyda staff S4C.

**13. Gwerthuso aelodau’r Bwrdd**

13.1. Rhaid i bob aelod o’r Bwrdd ymgymryd â phroses werthuso flynyddol i’w cynorthwyo i wneud y cyfraniad gorau posib i waith y Bwrdd.

13.2. Unwaith y flwyddyn, bydd y Cadeirydd yn cyfarfod gyda phob aelod yn unigol er mwyn gwerthuso perfformiad y person hwnnw fel aelod o’r Bwrdd. Cyflwynir crynodeb o’r materion a godir yn y gwerthusiadau i’r Bwrdd.

13.3. Unwaith y flwyddyn, bydd yr Aelod Annibynnol Arweiniol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg neu Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau yn cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd er mwyn gwerthuso ei berfformiad fel Cadeirydd. Fel rhan o’r gwerthusiad, bydd yr Aelod Annibynnol Arweiniol yn gwahodd adborth ar berfformiad y Cadeirydd gan weddill aelodau’r Bwrdd, yr Ysgrifennydd, ac aelodau’r Uwch Dîm Arwain. Cyflwynir crynodeb o’r materion a godir yn y gwerthusiad i’r Bwrdd, ynghyd â’r DCMS.

**14. Tymor aelodau’r Bwrdd**

14.1. <u>Y Cadeirydd a’r aelodau anweithredol</u>

14.2. Penodir y Cadeirydd a’r aelodau anweithredol gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae’r telerau sy’n berthnasol i’r penodiadau hynny’n diffinio tymor yr unigolyn ar y Bwrdd, ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

14.3. Mae’r trefniadau ar gyfer penodi aelodau anweithredol hefyd fel arfer yn ei gwneud yn bosibl i’r Ysgrifennydd Gwladol ddiswyddo aelod anweithredol os methant â chyflawni’r dyletswyddau sy’n ofynnol o’r aelodau i’r safon a ddisgwylir gan bersonau sy’n dal swydd gyhoeddus.

14.4. <u>Yr aelodau gweithredol</u>

14.5. Rhaid i Brif Weithredwr S4C fod yn aelod gweithredol o’r Bwrdd, a bydd eu haelodaeth o’r corff yn parhau trwy gydol eu penodiad yn y swydd honno.

14.6. Yn unol â’r Rheolau Sefydlog, gellir penodi o leiaf un, a hyd at ddau, aelod gweithredol (yn ychwanegol i’r Prif Weithredwr). Caiff yr aelodau gweithredol eu penodi gan yr aelodau anweithredol, yn dilyn cynnig gan y Prif Weithredwr. Bydd tymor yr unigolyn ar y Bwrdd yn cael ei gadarnhau iddynt yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd.

14.7. Gall yr aelodau anweithredol ddod â phenodiad aelod gweithredol i’r Bwrdd i ben ar sail argymhelliad gan y Prif Weithredwr.

## 15. Iechyd a Diogelwch

15.1. Er bod S4C yn cymryd camau i sicrhau amgylchedd gwaith diogel, mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o'r Bwrdd i weithredu yn unol â chyngor a chyfarwyddyd S4C ar faterion iechyd a diogelwch. Disgwylir i bob aelod ddilyn arfer da, ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Prif Swyddog Gweithredu neu'r Ysgrifennydd yn syth.

## 16. Prosesu Data

16.1. Mae S4C yn casglu ac yn prosesu data personol aelodau'r Bwrdd at ddibenion gweinyddol, ac ar gyfer cydymffurfio â gofynion statudol. Cedwir y wybodaeth hon yn gyfrinachol, ac yn unol â'r rheoliadau diogelu data personol.